Canolradd.Uned Arholi

Teitl yr Uned: **Uned Arholi**	**Cyfeirnod:** Canolradd.Uned Arholi
Lefel: Canolradd	**Unedau rhagofynnol:** Argymhellir y dylai ymgeiswyr ymgyfarwyddo â chynnwys yr unedau blaenorol yn y llwybr Canolradd, ond nid yw'n rhaganghenraid fod ymgeiswyr wedi eu cyflawni i sefyll yr arholiad.
Gwerth credyd: 24	
Canlyniadau dysgu: Ar ôl llwyddo ym mhrofion yr uned hon, bydd y dysgwyr wedi dangos eu bod yn gallu cyflawni gofynion yr unedau sydd yn y llwybr credydau Canolradd.	**Meini prawf asesu:** Cyflawni'r tasgau asesu dan amodau arholiad (ac eithrio'r Dasg Siarad).
Dylai'r dysgwyr allu: 1. Sgwrsio a thrafod ac eraill, gan holi ac ymateb yn briodol, ar bwnc cyfarwydd. 2. Gwrando ar sgwrs a bwletinau newyddion ac adnabod y prif bwyntiau. 3. Darllen testunau amrywiol i adnabod prif bwyntiau a chael hyd i'r wybodaeth berthnasol. 4. Ysgrifennu llythyrau neu negeseuon e-bost at bwrpasau amrywiol a disgrifio lleoedd, pobl neu ddigwyddiadau gwahanol, e.e. wrth lenwi ffurflen estynedig. 5. Dangos dealltwriaeth o strwythurau'r Gymraeg drwy lenwi bylchau mewn testun estynedig.	Mae'r dysgwyr wedi cyflawni hyn am eu bod yn gallu: Sefyll y profion dan amodau arholiad a chyrraedd y trothwy llwyddo.

Siarad a Chydsgwrsio	55%
Gwrando	15%
Darllen a Llenwi Bylchau	15%
Ysgrifennu	15%

Asesu a Dyfarnu

Asesir y profion i gyd yn allanol. Rhaid i'r ymgeiswyr sefyll y profion ar ddiwrnod penodedig a dylid cysylltu â CBAC am wybodaeth am hyn. Nid oes rhaid i ymgeiswyr lwyddo ym mhob prawf ond rhaid i'r cyfanswm gyrraedd y trothwy, sef 60% o'r cyfanswm. Pennir yr union farc trothwy gan y gweithgor arholiadau. Cynhelir yr arholiad yn unol â Chod Ymarfer y Corff Rheoleiddio.

Ni chaniateir defnyddio geiriaduron na rhestri geirfa yn ystod y profion.

Anfonir holl waith yr ymgeiswyr i CBAC i'w farcio gan dîm o farcwyr allanol, gan gynnwys y Dasg Siarad. Bydd y prif arholwr yn marcio sampl o bapurau / tapiau'r marcwyr eraill er mwyn sicrhau cysondeb a safon (fel arfer, tua 10% o'r gwaith i gyd). Cynhelir cyfarfod dyfarnu ymhen mis wedi'r arholiad ei hun ac anfonir y canlyniadau i'r canolfannau fel arfer 6-8 wythnos ar ôl dyddiad yr arholiad. Bydd pob ymgeisydd yn derbyn llythyr yn nodi a ydyw wedi llwyddo, y marc a gafwyd ym mhob prawf a'r cyfanswm allan o 400 a dyfernir y graddau canlynol:

Llwyddo: 60-80%
Rhagoriaeth: 80-100%

Bydd yr ymgeiswyr llwyddiannus yn derbyn tystysgrif CBAC fel arfer tua dau fis wedi dyddiad sefyll yr arholiad ei hun. Bydd y dystysgrif yn nodi bod yr ymgeisydd llwyddiannus wedi cyrraedd lefel sy'n cyfateb i Ddisgrifiad Lefel 2 yn y Fframwaith Cymwysterau Cenedlaethol.

Disgrifiadau Cyrhaeddiad

Rhagoriaeth (80%-100%)

Er mwyn cael rhagoriaeth, rhaid i ymgeiswyr ddangos eu bod yn meddu ar o leiaf 80% o'r wybodaeth a'r sgiliau a ddiffinnir yng nghynnwys y llwybr credydau ar y lefel hon. Ar lafar, byddant yn gallu siarad Cymraeg yn rhugl, siarad am brofiadau digwyddiadau a gobeithion yn rhwydd, trafod pwnc cyfarwydd a rhyngweithio â siaradwr rhugl yn llwyddiannus. Byddant yn gallu estyn eu hymatebion a siarad mewn ffordd gydlynus. Byddant yn gallu deall Cymraeg llafar mewn sgyrsiau a thrafodaethau am bethau cyfarwydd, a deall bron y cyfan o brif bwyntiau eitemau lled-ffurfiol, e.e. bwletinau newyddion. Byddant yn gallu deall testunau estynedig am bynciau cyfarwydd gan gael hyd i wybodaeth arwyddocaol heb drafferth, adnabod bwriad awdur a deall bron y cyfan o ystyr a ymhlygir. Byddant yn gallu ysgrifennu Cymraeg yn gywir ac yn gydlynus at bwrpasau amrywiol, ac ymateb i ofynion amrywiol yn ysgrifenedig. Byddant yn gallu deall strwythurau'r Gymraeg a phwyntiau gramadegol sy'n codi ar lefel testun.

Llwyddo (60% - 80%)

Er mwyn llwyddo, rhaid i ymgeiswyr ddangos eu bod yn meddu ar o leiaf 60% o'r wybodaeth a'r sgiliau a ddiffinnir yng nghynnwys y llwybr credydau ar y lefel hon. Ar lafar, byddant yn gallu siarad Cymraeg yn dda, siarad am brofiadau digwyddiadau a gobeithion heb fod camgymeriadau'n ymyrryd. Byddant yn gallu trafod pwnc cyfarwydd a rhyngweithio â siaradwr rhugl er bod cyfathrebu'n anodd ac yn llafurus ar brydiau. Byddant yn gallu estyn eu hymatebion a siarad yn drefnus, er nad yw hynny'n rhwydd. Byddant yn gallu deall Cymraeg llafar mewn sgyrsiau a thrafodaethau am bethau cyfarwydd, a deall y rhan fwyaf o'r prif bwyntiau eitemau lled-ffurfiol, e.e. bwletinau newyddion. Byddant yn gallu deall y rhan fwyaf o destunau estynedig am bynciau cyfarwydd gan gael hyd i wybodaeth arwyddocaol, adnabod bwriad awdur a deall peth ystyr a ymhlygir. Byddant yn gallu ysgrifennu Cymraeg yn ddigon cywir fel nad yw gwallau'n ymyrryd gormod, ac yn ddigon gydlynus i gyfleu'r pwrpas i'r darllenydd, gan ymateb yn foddhaol i ofynion amrywiol yn

ysgrifenedig. Byddant yn gallu deall y rhan fwyaf o strwythurau'r Gymraeg a phwyntiau gramadegol sy'n codi ar lefel testun.

Methu

Ni ellir dyfarnu cymhwyster i ymgeiswyr sydd heb ddangos eu bod yn meddu ar o leiaf 60% o'r wybodaeth a'r sgiliau a ddiffinnir yn y llwybr Canolradd.

Siarad a Chydsgwrsio [220]

Mae 2 ran i'r prawf hwn:

i. Tasg Sgwrsio [60]
ii. Prawf Llafar [160]

i. **Tasg Sgwrsio** [50]

Mae hon yn dasg y mae'r ymgeisydd yn ei chwblhau cyn dyddiad yr arholiad. Y nod yw annog ymgeiswyr i ddefnyddio'r Gymraeg y tu allan i furiau'r dosbarth drwy recordio sgwrs â siaradwr rhugl. Rhaid i'r ymgeisydd siarad am 5-6 munud â siaradwr rhugl nad yw'n diwtor Cymraeg arno/arni a recordio'r sgwrs. Dylid anfon y sgwrs ar CD neu gasét i CBAC erbyn 1 Mai yn y flwyddyn y bwriedir sefyll yr arholiad. Bydd y dasg yn cael ei hasesu'n allanol.

Dylai'r ymgeisydd fod yn arwain y sgwrs, a holi'r person arall, yn hytrach na derbyn cwestiynau'n oddefol. Gellir sgwrsio am bynciau o ddiddordeb personol, e.e. gwaith, bywyd cymdeithasol, diddordebau, yr ardal, y teulu neu unrhyw bwnc sydd o ddiddordeb i'r ddau, cyhyd â bod yr ymgeisydd yn llywio'r sgwrs. Rhaid i'r ymgeisydd anfon ffurflen ardystio gyda'r CD (neu'r casét) a gyflwynir.[1]

Asesir gallu'r ymgeisydd:

- i ryngweithio neu gydsgwrsio â siaradwr rhugl
- i holi ac *arwain* sgwrs;
- i gyfathrebu'n gywir, heb fod gwallau'n ymyrryd â dealltwriaeth;

Rhoddir marc allan o 10 am bob un o'r meini prawf uchod a'i luosi â 2 i roi marc allan o 60.

Rhyngweithio

[8-10] yn cyflwyno ac yn cloi'r sgwrs yn gwbl briodol, yn ymateb i'r hyn y mae'r person arall yn ei ddweud yn briodol.
[6-7] yn cyflwyno neu'n cloi'r sgwrs mewn ffordd sy'n dderbyniol, ond heb ymateb yn briodol bob tro i'r hyn y mae'r person arall yn ei ddweud.
[4-5] yn cyflwyno ac yn cloi i yn foddhaol unig; yn rhyngweithio'n briodol i raddau yn unig; neu'n darllen sgript.
[1-3] heb gyflwyno na chloi'r sgwrs; yn rhyngweithio ar lefel elfennol, neu'n amlwg yn darllen sgript.

Holi

[8-10] yn holi'r person arall yn gwbl briodol er mwyn llywio'r sgwrs.
[6-7] yn ceisio holi'r person arall yn briodol, ond yn aml yn cael ei arwain ganddo/ganddi.
[4-5] weithiau'n holi'r person arall mewn ffordd addas.
[1-3] heb fod yn holi'r person arall (e.e. y siaradwr rhugl yn holi'r ymgeisydd).

[1] Ni chaniateir i ymgeiswyr gyflwyno ar ffurf tâp dictaffôn, nac anfon ffeiliau fel atodiadau e-bost.

Cywirdeb
[8-10] yn siarad yn gywir iawn, gyda rhai mân wallau yn unig.
[6-7] yn siarad yn gywir fel arfer, gyda gwallau sydd ddim yn ymyrryd â dealltwriaeth.
[4-5] yn siarad yn gywir weithiau'n unig, gyda gwallau sylfaenol, e.e. cystrawen.
[1-3] yn siarad yn wallus, yn drwsgl iawn neu'n cymysgu geirfa a chystrawennau.

ii. **Prawf Llafar** [160]

Bydd pob ymgeisydd yn cael cyfweliad llafar unigol â chyfwelydd nad yw'n ei adnabod (lle bod hynny'n ymarferol). Caiff pob cyfweliad ei recordio a'i asesu'n allanol.

Mae dwy ran i'r prawf llafar a fydd yn para tua 20 munud:

i. **Trafod pwnc** [40]
ii. **Sgwrs Gyffredinol** [120]

i. **Trafod pwnc**

Bydd yr ymgeisydd yn cael 20 munud ymlaen llaw i baratoi'r pwnc a drafodir. Caniateir gwneud pwyntiau cryno a mynd â nhw i mewn i'r ystafell gyfweld, ond ni chaniateir sgriptio'r sgwrs. Bydd y cyfwelydd yn dechrau drwy holi un neu ddau gwestiwn cyfarch, e.e. Sut dych chi heddiw? Sut aeth yr arholiad y bore 'ma? Nid yw'r rhain yn cael eu hasesu.
Yna, bydd y cyfwelydd yn gofyn i'r ymgeisydd 'Pa bwnc dych chi wedi'i ddewis?' Mae'n gyfle i'r ymgeisydd fynegi barn, wrth drafod pwnc cyfarwydd. Bydd y rhan hon yn para tua 5 munud.

Asesir:
- cywirdeb
- ystod amserau a chystrawennau
- gallu'r ymgeisydd i ymateb i gwestiynau'r cyfwelydd
- priodoldeb yr hyn y mae'r ymgeisydd yn ei ddweud

Cywirdeb
[8-10] yn siarad yn gywir iawn, gyda rhai mân wallau yn unig.
[6-7] yn siarad yn gywir fel arfer, gyda gwallau sydd ddim yn ymyrryd â dealltwriaeth.
[4-5] yn siarad yn gywir weithiau'n unig, gyda gwallau sylfaenol, e.e. cystrawen.
[1-3] yn siarad yn wallus, yn drwsgl iawn neu'n cymysgu geirfa a chystrawennau.

Ystod
[8-10] yn defnyddio amrywiaeth o amserau a chystrawennau, e.e. y gorffennol, yr amodol, brawddegau pwysleisiol, cystrawen 'i', e.e. ar ôl i ni... yn gwbl addas i'r cyd-destun.
[6-7] yn defnyddio rhai amserau a chystrawennau amrywiol, (gydag un neu ddwy enghraifft o gymysgu) a'r rhain yn briodol fel arfer.
[4-5] yn defnyddio un neu ddau o batrymau gwahanol, e.e. yn cadw at yr amser presennol.
[1-3] yn defnyddio ystod gyfyng o amserau a chystrawennau, ac yn cymysgu rhwng amserau, e.e. rhwng y gorffennol a 'wedi'.

Rhyngweithio
[8-10] yn ymateb i'r hyn y mae'r cyfwelydd yn ei ddweud yn briodol, heb oedi'n ormodol, gan gymryd ei dro / ei thro'n ddidrafferth.
[6-7] yn ceisio ymateb i'r hyn y mae'r cyfwelydd yn ei ddweud, ond yn betrus wrth wneud hynny weithiau.
[4-5] yn ymateb yn briodol i'r cyfwelydd i raddau'n unig, ac yn llafurus wrth wneud.

[1-3] heb fedru ymateb yn briodol i sbardunau'r cyfwelydd, dim ond unwaith neu ddwy, heb allu cymryd tro na chyfrannu'n briodol llawer.

Priodoldeb

[8-10] y cynnwys yn gwbl briodol i gyd-destun y pwnc trafod.
[6-7] y cynnwys yn briodol ar y cyfan, er nad yw'r cyfraniadau'n addas bob tro.
[4-5] y cynnwys yn foddhaol, ond heb ateb gofynion y dasg yn iawn.
[1-3] wedi camddeall gofynion y dasg i raddau helaeth neu'n methu ymdopi â thrafod pwnc yn iawn.

ii. **Sgwrs gyffredinol**

Ar ôl gorffen trafod pwnc, bydd y cyfwelydd yn diolch i'r ymgeisydd ac yn dweud ei fod yn mynd i ofyn cwestiynau cyffredinol iddo/iddi. Disgwylir i ymgeiswyr *estyn* ymatebion ar y lefel hon, heb ddibynnu ar y cyfwelydd am sbardun i ddweud brawddeg. Bydd y rhan hon yn para tua 15 munud. Dyma enghreifftiau o'r math o gwestiynau a ofynnir. Y nod yw defnyddio hwn fel ffrâm i sgwrs mor naturiol â phosibl. Does dim rhaid i'r cyfwelyd ofyn pob cwestiwn a awgrymir, a dylai roi'r cyfle i'r ymgeisydd estyn ateb, cyn gofyn sgil-gwestiynau.

- **Gwreiddiau**

  Dych chi'n enedigol o'r ardal yma? Ble yn union mae'r tŷ? Pam symudoch chi yma? Fasech chi'n symud byth? Aethoch chi i'r ysgol yma? Beth oedd eich hoff bynciau yn yr ysgol?
  (gan ofyn sgil-gwestiynau yn ôl ymateb yr ymgeisydd)

- **Gwaith**

  Ble dych chi'n gweithio? (I'r rhai sydd wedi ymddeol - Ble o'ch chi'n gweithio? Pam penderfynu ymddeol?) Beth dych chi'n wneud o ddydd i ddydd? Beth wnaethoch chi ddoe, er enghraifft? Fasech chi'n newid swydd?

- **Teulu**

  Oes teulu gyda chi/Oes gynnoch chi deulu?
  (gan ofyn sgil-gwestiynau yn ôl ymateb yr ymgeisydd)

- **Diddordebau**

  Oes llawer o amser sbâr gyda chi/gynnoch chi? Ers pryd dych chi'n gwneud hyn? Pa mor aml? Ydy e'n ddrud? Pryd gwnaethoch chi hyn ddiwetha?
  (gan ofyn sgil-gwestiynau yn ôl ymateb yr ymgeisydd)

- **Profiad yn dysgu Cymraeg**

  Pryd dechreuoch chi ddysgu Cymraeg? Ble? Gyda phwy? Pam? Beth yw/ydy'r peth mwya anodd am ddysgu Cymraeg?
  (gan ofyn sgil-gwestiynau yn ôl ymateb yr ymgeisydd)

- **Gobeithion i'r dyfodol**

  Beth dych chi'n mynd i'w wneud ar ôl gorffen y cwrs? Beth fyddwch chi'n wneud dros yr haf? Beth fyddwch chi'n wneud yr amser yma y flwyddyn nesa?
  (gan ofyn sgil-gwestiynau yn ôl ymateb yr ymgeisydd)

Asesir:

- cywirdeb
- ystod amserau a chystrawennau
- gallu'r ymgeisydd i ymateb i'r hyn a ddywed y cyfwelydd
- gallu'r ymgeisydd i estyn ymatebion
- ynganu
- priodoldeb yr hyn y mae'r ymgeisydd yn ei ddweud

Mae'r cyfanswm allan o 60 yn cael ei ddyblu i roi marc allan o 120.

Cywirdeb

[8-10] yn siarad yn gywir iawn, gyda rhai mân wallau yn unig.
[6-7] yn siarad yn gywir fel arfer, gyda gwallau sydd ddim yn ymyrryd â dealltwriaeth .
[4-5] yn siarad yn gywir weithiau'n unig, gyda gwallau sylfaenol, e.e. cystrawen.
[1-3] yn siarad yn wallus, yn drwsgl iawn neu'n cymysgu geirfa a chystrawennau.

Ystod

[8-10] yn defnyddio amrywiaeth o amserau a chystrawennau, e.e. y gorffennol, yr amodol, brawddegau pwysleisiol, cystrawen 'i', e.e. ar ôl i ni... yn gwbl addas i'r cyd-destun.
[6-7] yn defnyddio rhai amserau a chystrawennau amrywiol, (gydag un neu ddwy enghraifft o gymysgu) a'r rhain yn briodol fel arfer.
[4-5] yn defnyddio un neu ddau o batrymau gwahanol, e.e. yn cadw at yr amser presennol.
[1-3] yn defnyddio ystod gyfyng o amserau a chystrawennau, ac yn cymysgu rhwng amserau, e.e. rhwng y gorffennol a 'wedi'.

Rhyngweithio

[8-10] yn ymateb i'r hyn y mae'r cyfwelydd yn ei ddweud yn briodol, heb oedi'n ormodol, gan gymryd ei dro / ei thro'n ddidrafferth.
[6-7] yn ceisio ymateb i'r hyn y mae'r cyfwelydd yn ei ddweud, ond yn betrus wrth wneud hynny weithiau.
[4-5] yn ymateb yn briodol i'r cyfwelydd i raddau'n unig, ac yn llafurus wrth wneud.
[1-3] heb fedru ymateb yn briodol i sbardunau'r cyfwelydd, dim ond unwaith neu ddwy, heb allu cymryd tro na chyfrannu'n briodol llawer.

Priodoldeb

[8-10] y cynnwys yn gwbl briodol i gyd-destun y sgwrs.
[6-7] y cynnwys yn briodol ar y cyfan, er nad yw'r cyfraniadau'n addas bob tro.
[4-5] y cynnwys yn foddhaol, ond heb ateb cwestiynau'r cyfwelydd yn briodol bob tro.
[1-3] wedi camddeall cyfeiriad y sgwrs i raddau helaeth neu'n methu ymdopi â thrafod y cwestiynau a ofynnir.

Estyn

[8-10] yn gallu estyn ymateb, gan gysylltu brawddegau'n ddidrafferth.
[6-7] yn gallu dweud mwy nag un peth, er bod yr atebion braidd yn gwta.
[4-5] yn gallu estyn ymatebion i raddau'n unig.
[1-3] yn ateb mewn un frawddeg, heb gynnig dim gwybodaeth ychwanegol i sbardun cyntaf y cyfwelydd.

Ynganu

[8-10] yn ynganu'n glir ac yn gwbl ddealladwy bob tro.
[6-7] yn ynganu'n dderbyniol, er bod rhai enghreifftiau o gamynganu.
[4-5] yn ynganu'n foddhaol ar adegau'n unig, ac yn ynganu'n aneglur yn aml.
[1-3] yn ynganu'n aneglur, ac weithiau'n annealladwy.

Papur Enghreifftiol

Llwybr Credydau Lefel Canolradd
Cymraeg yn Ail Iaith i Oedolion

Siarad - Taflen yr Ymgeisydd

Rhaid i chi ddewis **un** o'r pynciau yma:

i. Does dim rhaglenni da ar y teledu erbyn hyn. Trafodwch â'r cyfwelydd.

ii. Mae byw yng nghefn gwlad yn well o lawer na byw yn y ddinas. Trafodwch â'r cyfwelydd.

iii. Dylai pobl deithio mwy ar y bws a'r trên. Trafodwch â'r cyfwelydd.

Llwybr Credydau Lefel Canolradd
Cymraeg yn Ail Iaith i Oedolion

Siarad - Taflen y Cyfwelydd

Bydd yr ymgeisydd wedi dewis **un** o'r tasgau yma. Rhoddir awgrymiadau mewn teip *italig* am y math o gwestiynau y gellir eu holi - cofiwch ymateb i'r hyn a ddywed yr ymgeisydd yn anad dim. Nid oes **rhaid** gofyn yr union gwestiynau yma a chofiwch addasu'r ffurfiau i'r hyn a fydd yn gyfarwydd i'r ymgeisydd, e.e. Dych chi / Dach chi, Ydy e / o, ac yn y blaen. **Ni ddylai'r dasg bara mwy na thua 5 munud.**

Rhaid i'r ymgeisydd ddewis **un** o'r tasgau hyn:

i. Does dim rhaglenni da ar y teledu erbyn hyn. Trafodwch â'r cyfwelydd.

Awgrymiadau

Dych chi'n cytuno? Pam?
Pa fath o raglenni dych chi'n eu gwylio? / dych chi'n eu casáu?
Beth o'ch chi'n ei wylio yn y gorffennol?

ii. Mae byw yng nghefn gwlad yn well o lawer na byw yn y ddinas. Trafodwch â'r cyfwelydd.

Awgrymiadau

Dych chi'n cytuno? Pam?
Beth am y pethau dych chi'n gallu eu gwneud os dych chi'n byw mewn dinas?
Ydy byw yn y wlad yn ddrutach neu'n rhatach na byw mewn dinas?
Fasech chi'n symud?

iii. Dylai pobl deithio mwy ar y bws a'r trên. Trafodwch â'r cyfwelydd.

Awgrymiadau

Dych chi'n defnyddio'r car bob dydd?
Ydy pobl yn fwy parod i ddefnyddio'r bws a'r trên y dyddiau yma?
Pryd oedd y tro diwetha i chi ddefnyddio'r bws neu'r trên?
Fasech chi'n defnyddio'r trên neu'r bws mwy, tasai'r gwasanaeth yn well?

Gwrando [60]

Mae 2 ran i'r prawf hwn.

i. Deialog [32]
iii. Bwletin Newyddion [28]

Rhaid i ymgeiswyr ddangos dealltwriaeth o ddarnau wedi eu recordio'n arbennig ar gyfer y prawf, gan ysgrifennu eu hatebion yn Gymraeg. Rhaid iddynt ateb cwestiynau am ddau ddarn gwahanol. Darperir fersiwn yn nhafodiaith y de a fersiwn yn nhafodiaith y gogledd o'r ddeialog, ond defnyddir iaith led-ffurfiol gyffredin yn y bwletin newyddion.

Bydd yr ymgeiswyr yn cael clywed y darnau dair gwaith, a gallant edrych ar y cwestiynau ac ysgrifennu yn ystod y gwrandawiad cyntaf. Rhoddir munud i ymgeiswyr ddarllen y cwestiynau cyn y gwrandawiad cyntaf. Nid asesir cywirdeb orgraffyddol a mynegiannol yr atebion, ond rhaid i'r ymgeisydd ddangos dealltwriaeth o'r darnau - hynny yw, ni chosbir ymgeiswyr am wallau iaith yn eu hatebion. Bydd cynllun marcio penodol i bob papur gwahanol yn nodi atebion cywir a rhannol gywir i bob cwestiwn.

Deialog

Yn y ddeialog, clywir dau'n trafod pwnc o ddiddordeb cyffredinol. Bydd 8 cwestiwn yn seiliedig ar y darn, a'r rhain yn gofyn i'r ymgeiswyr fedru casglu'r ateb o'r testun, er mwyn dangos dealltwriaeth o bwyntiau arwyddocaol.

Bwletin Newyddion

Bydd bwletin newyddion yn cynnwys saith eitem newyddion ffug ar destunau gwahanol, e.e. damweiniau, agor/cau busnesau, streiciau, trychinebau, newyddion ysgafn, chwaraeon, y tywydd. Bydd 7 cwestiwn, un ar bob eitem, yn gofyn i'r ymgeiswyr ddangos dealltwriaeth o'r prif bwyntiau.

Papur Enghreifftiol

Llwybr Credydau Lefel Canolradd
Cymraeg yn Ail Iaith i Oedolion

Gwrando

Hyd y prawf: tua 40 munud

Mae 2 ran i'r prawf yma.

Gallwch chi ennill hyd at 60 o farciau yn y prawf hwn.

Enw llawn yr ymgeisydd: _____

Rhif Arholiad yr ymgeisydd: _____

Canolfan Arholi: _____

Peidiwch ag agor y llyfr hwn cyn i'r gweinyddwr roi caniatâd.
Ni roddir tystysgrif i ymgeisydd a geir yn ymddwyn yn annheg yn ystod yr arholiad.

i. **Deialog**

- Dych chi'n mynd i wrando ar ddeialog. Yn gyntaf, cewch chi 1 funud i edrych ar y cwestiynau.
- Yna, byddwch chi'n clywed y ddeialog drwyddi ac yn cael 2 funud i ysgrifennu.
- Yr ail dro, byddwch chi'n cael toriad o 1 funud yn y canol ac 1 funud ar y diwedd.
- Y trydydd tro, byddwch chi'n clywed y ddeialog drwyddi ac yn cael 2 funud i ysgrifennu.
- Dylech chi ateb y cwestiynau yn Gymraeg. Does dim rhaid ysgrifennu brawddegau llawn, ond rhaid cynnwys y ffeithiau perthnasol i gyd.
- Fyddwch chi ddim yn colli marciau am wallau iaith na sillafu.

i. **Deialog** [32]

Cwestiynau

1. Beth sy'n awgrymu bod Colin yn byw dramor erbyn hyn? [4]

---

2. Yn y nofel, pam mae Catrin yn mynd o ddinas i ddinas? [4]

---

3. Pam na fasai'r nofel yn addas i blant, o bosib? [4]

---

4. Sut helpodd teulu Colin wrth iddo ysgrifennu'r nofel? [4]

***

5. Doedd dim rhaid i Colin fynd i'r dinasoedd gwahanol er mwyn ysgrifennu'r nofel. Pam? [4]

---

6. Beth sy'n profi bod y llyfr yn boblogaidd? [4]

---

7. Beth dyw/dydy Colin **ddim** yn ei hoffi am y syniad o wneud ffilm allan o'r llyfr? [4]

---

8. Beth fydd un gwahaniaeth rhwng y nofel hon a nofel nesa Colin? [4]

---

ii. **Bwletin Newyddion**

- Dych chi'n mynd i wrando ar fwletin newyddion. Yn gyntaf, cewch chi 1 funud i edrych ar y cwestiynau.
- Yna, byddwch chi'n clywed y bwletin drwyddo ac yn cael 2 funud i ysgrifennu.
- Yr ail dro, byddwch chi'n cael toriad o 1 funud rhwng pob eitem ac 1 funud ar y diwedd.
- Y trydydd tro, byddwch chi'n clywed y bwletin drwyddo ac yn cael 2 funud i ysgrifennu.
- Dylech chi ateb y cwestiynau yn Gymraeg. Does dim rhaid ysgrifennu brawddegau llawn, ond rhaid cynnwys y ffeithiau perthnasol i gyd.
- Fyddwch chi ddim yn colli marciau am wallau iaith neu sillafu.

ii. **Bwletin Newyddion** [28]

Cwestiynau

1. Sut bydd cau'r ffatri'n effeithio ar bobl Llanidloes? (2 ateb) [4]

---

2. Pam mae'r flwyddyn yma wedi bod yn ddrwg i bobl Fflorida? [4]

---

3. Pam dyw'r darllenwr ddim yn gallu dweud llawer am y ddamwain yn y bwletin? [4]

---

4. Beth yw'r rheswm mwya y bydd pobl yn cofio Della Johnson? [4]

---

5. Pam mae Tom Jenkins yn y newyddion? [4]

---

6. Pam mae anaf Stephen James yn broblem i dîm Cymru yn y dyfodol agos? [4]

---

7. Pam dylai gyrwyr boeni am y tywydd? [4]

Sgriptiau ac Atebion Enghreifftiol

Sgriptiau

i. **Deialog (fersiwn y de)**

EH: Bore da, a chroeso i raglen Sgwrs a Stori, gyda fi, Elin Huws. Ein gwestai cynta ar y rhaglen heddiw yw Colin Philips. Mae Colin yma i siarad am ei lyfr newydd, 'O Ddinas i Ddinas', sy'n sôn am daith o gwmpas Ewrop. Un o Aberystwyth yw Colin, ond mae e yma heddiw i siarad â ni am ei nofel gyntaf. Croeso i'r stiwdio, Colin.

CP: Diolch yn fawr. Mae'n bleser dod yma i'r stwdio, a dod yn ôl i Gymru ar ôl cymaint o flynyddoedd.

EH: Wel, ga'i ddechrau drwy ddweud mod i wedi mwynhau'r nofel yn fawr. Allwch chi ddweud rhywbeth amdani?

CP: Stori yw hi, a dweud y gwir. Stori am ferch ifanc o'r enw Catrin Mai, sy'n un deg naw oed. Mae hi'n teithio o gwmpas Ewrop, yn cwrdd â llawer o bobl, yn gweld dinasoedd gwahanol, wrth chwilio am ei theulu hi. Dyna'r stori, yn syml iawn.

EH: Mae tipyn o sôn am gymryd cyffuriau yn y nofel hefyd, a rhai pobl yn poeni bod pobl ifanc yn mynd i'w darllen hi…

CP: Dw i ddim yn credu bod y nofel yn wahanol i lawer o lyfrau Saesneg. Oes, mae cymryd cyffuriau'n digwydd, ond mae hynny'n rhan o'r stori. Mae'n rhan o fywyd.

EH: Merch ifanc yw'r prif gymeriad. Sut llwyddoch chi i ysgrifennu am rywun sy'n wahanol iawn i chi?

CP: Wel, fel dych chi'n gweld dw i'n hen ddyn pum deg pump oed! Ond mae dwy ferch gyda fi, sy'n ddau ddeg tri a dau ddeg un oed. Dysgais i lawer wrthyn nhw am sut mae pobl ifanc yn siarad ac yn gwisgo. Cofiwch - does dim byd yn debyg rhwng Catrin a nhw… gobeithio!

***

EH: Mae llawer o ddinasoedd yn y llyfr - Berlin, Madrid, Fflorens, Amsterdam… Aethoch chi i'r dinasoedd yma yn arbennig er mwyn ysgrifennu'r llyfr?

CP: Naddo. Ro'n i'n ddigon lwcus i fynd i'r llefydd yma gyda fy ngwaith. Ro'n i'n mynd â grwpiau o dwristiaid o gwmpas y dinasoedd yma, felly roedd rhaid i fi ddysgu llawer o'r hanes. Mae twristiaid yn gofyn cwestiynau drwy'r amser!

EH: Doedd rhai pobl sy'n ysgrifennu yn y papurau newydd ddim yn hoffi'r nofel o gwbl, ond mae hi'n un o'r llyfrau sy wedi gwerthu fwya dros y chwe mis diwetha. Beth dych chi'n feddwl o hynny?

CP: Mae'n braf clywed hynny. Dw i ddim yn poeni am beth mae pobl yn ei ddweud am y llyfr yn y papurau newydd, a dweud y gwir.

EH: Beth am wneud ffilm o'r llyfr?

CP: Wel, basai'r arian yn neis iawn… ond faswn i ddim eisiau newid y stori o gwbl. Dyna'r unig beth sy'n fy mhoeni. Basai'n rhaid i fi feddwl am hynny'n ofalus.

EH: Wel, mae llawer o ffans gyda chi yma yng Nghymru, ac maen nhw eisiau gwybod un peth. Fydd nofel arall am Catrin Mai yn mynd o ddinas i ddinas?

CP: Dw i wedi dechrau arni'n barod! Bydd hi'n dilyn stori Catrin Mai eto, a bydd hi ar daith o gwmpas Ewrop, ond ddim yn Gymraeg bydd y llyfr. Mae llawer o ffrindiau wedi gofyn i fi ysgrifennu'r peth yn Sbaeneg.

EH: Wel, diddorol iawn. Diolch yn fawr i chi am y sgwrs Colin, a phob hwyl i chi gyda'r ysgrifennu.

Deialog (fersiwn y gogledd)

EH: Bore da, a chroeso i raglen Sgwrs a Stori, efo fi, Elin Huws. Ein gwestai cynta ar y rhaglen heddiw ydy Colin Philips. Mae Colin yma i siarad am ei lyfr newydd, 'O Ddinas i Ddinas', sy'n sôn am daith o gwmpas Ewrop. Un o Aberystwyth ydy Colin, ond mae o yma heddiw i siarad efo ni am ei nofel gyntaf. Croeso i'r stiwdio, Colin.

CP: Diolch yn fawr. Mae'n bleser dŵad yma i'r stwdio, a dŵad yn ôl i Gymru ar ôl cymaint o flynyddoedd.

EH: Wel, ga'i ddechrau drwy ddeud mod i wedi mwynhau'r nofel yn fawr. Fedrwch chi ddweud rhywbeth amdani?

CP: Stori ydy hi, a deud y gwir. Stori am ferch ifanc o'r enw Catrin Mai, sy'n un deg naw oed. Mae hi'n teithio o gwmpas Ewrop, yn cyfarfod llawer o bobl, yn gweld dinasoedd gwahanol, wrth chwilio am ei theulu hi. Dyna'r stori, yn syml iawn.

EH: Mae tipyn o sôn am gymryd cyffuriau yn y nofel hefyd, a rhai pobl yn poeni bod pobl ifanc yn mynd i'w darllen hi…

CP: Dw i ddim yn credu bod y nofel yn wahanol i lawer o lyfrau Saesneg. Oes, mae cymryd cyffuriau'n digwydd, ond mae hynny'n rhan o'r stori. Mae'n rhan o fywyd.

EH: Merch ifanc ydy'r prif gymeriad. Sut wnaethoch chi lwyddo i ysgrifennu am rywun sy'n wahanol iawn i chi?

CP: Wel, fel dach chi'n gweld dw i'n hen ddyn pum deg pump oed! Ond mae gen i ddwy hogan, sy'n ddau ddeg tri a dau ddeg un oed. Mi wnes i ddysgu llawer wrthyn nhw am sut mae pobl ifanc yn siarad ac yn gwisgo. Cofiwch - does dim byd yn debyg rhwng Catrin a nhw… gobeithio!

***

EH: Mae 'na lawer o ddinasoedd yn y llyfr - Berlin, Madrid, Fflorens, Amsterdam… Aethoch chi i'r dinasoedd yma yn arbennig er mwyn ysgrifennu'r llyfr?

CP: Naddo. Ro'n i'n ddigon lwcus i fynd i'r llefydd yma efo fy ngwaith. Ro'n i'n mynd â grwpiau o dwristiaid o gwmpas y dinasoedd yma, felly roedd rhaid i mi ddysgu llawer o'r hanes. Mae twristiaid yn gofyn cwestiynau drwy'r amser!

EH: Doedd rhai pobl sy'n ysgrifennu yn y papurau newydd ddim yn hoffi'r nofel o gwbl, ond mae hi'n un o'r llyfrau sy wedi gwerthu fwya dros y chwe mis diwetha. Be' dach chi'n feddwl o hynny?

CP: Mae'n braf clywed hynny. Dw i ddim yn poeni am be' mae pobl yn ei ddeud am y llyfr yn y papurau newydd, a deud y gwir.

EH: Be' am wneud ffilm o'r llyfr?

CP: Wel, mi fasai'r arian yn neis iawn… ond faswn i ddim isio newid y stori o gwbl. Dyna'r unig beth sy'n fy mhoeni. Mi fasai'n rhaid i fi feddwl am hynny'n ofalus.

EH: Wel, mae gynnoch chi lawer o ffans yma yng Nghymru, ac maen nhw isio gwybod un peth. Fydd 'na nofel arall am Catrin Mai yn mynd o ddinas i ddinas?

CP: Dw i wedi dechrau arni'n barod! Mi fydd hi'n dilyn stori Catrin Mai eto, ac mi fydd hi ar daith o gwmpas Ewrop, ond ddim yn Gymraeg bydd y llyfr. Mae llawer o ffrindiau wedi gofyn i fi sgwennu'r peth yn Sbaeneg.

EH: Wel, diddorol iawn. Diolch yn fawr i chi am y sgwrs Colin, a phob hwyl i chi efo'r ysgrifennu.

Atebion Enghreifftiol

Cwestiynau

1. Beth sy'n awgrymu bod Colin yn byw dramor erbyn hyn? [4]
Mae blynyddoedd wedi mynd ers iddo fod yng Nghymru.

2. Yn y nofel, pam mae Catrin yn mynd o ddinas i ddinas? [4]
I chwilio am ei theulu.

3. Pam na fasai'r nofel yn addas i blant, o bosib? [4]
O achos bod sôn am gymryd cyffuriau yn y nofel.

4. Sut helpodd teulu Colin wrth iddo ysgrifennu'r nofel? [4]
Roedd ei ddwy ferch/hogan yn rhoi syniadau iddo
am sut mae pobl ifanc yn gwisgo ac yn siarad.
[Roedd ei ddwy ferch wedi ei helpu - 1 marc]

5. Doedd dim rhaid i Colin fynd i'r dinasoedd gwahanol [4]
er mwyn ysgrifennu'r nofel. Pam?
Roedd e'n mynd i'r dinasoedd gyda/efo'i waith.

6. Beth sy'n profi bod y llyfr yn boblogaidd? [4]
Mae e'n un o'r llyfrau sy wedi gwerthu fwya (dros y chwe mis diwetha).
Mae e'n un o'r gwerthwyr gorau.

7. Beth dyw/dydy Colin **ddim** yn ei hoffi am y syniad [4]
o wneud ffilm allan o'r llyfr?
Dyw e / Dydy o ddim eisiau newid y stori.

8. Beth fydd un gwahaniaeth rhwng y nofel hon a nofel nesa Colin? [4]
Roedd y nofel hon yn Gymraeg a bydd y nesa yn Sbaeneg.
[Bydd y nesa yn Sbaeneg - 2 farc]

ii. **Bwletin newyddion**

Sgript

Dyma'r bwletin newyddion.

1. Daeth newyddion drwg i ardal Llanidloes. Cyhoeddodd cwmni Dillad Hafren y bydd eu ffatri yno'n cau ar ddiwedd y flwyddyn. Bydd tri deg o bobl yn colli eu swyddi. Dwedodd llefarydd ar ran y cwmni fod hyn yn newyddion trist iawn. Bydd rhai o siopau'r dre'n cau hefyd, os bydd llai o bobl yn dod yno i siopa.

2. Newyddion tramor nesa. Cyrhaeddodd Corwynt Glenda arfordir Fflorida yn ystod y nos. Mae miloedd wedi gadael eu cartrefi a symud i ardaloedd eraill unwaith eto. Dyma'r pedwerydd corwynt i daro'r ardal yn barod y tymor hwn - ardal sy fel arfer yn gweld un neu ddwy storm fawr yn unig. Maen nhw'n gobeithio dod adre i weld y difrod yfory neu ddydd Sul.

3. Cafodd o leia hanner cant o bobl eu lladd mewn damwain trên ar y ffordd rhwng Dehli a Mwm-bai. Does dim llawer o fanylion ar gael ar hyn o bryd gan fod hyn wedi digwydd yn yr oriau diwetha. Dwedodd yr heddlu fod y gwasanaethau yno ar hyn o bryd. Bydd rhagor am hyn yn ein bwletin hwyrach.

4. Yn ôl yng Nghymru, bu farw'r athletwraig Della Johnson yn ei chartre yn Ninbych neithiwr. Daeth hi'n amlwg i ddechrau ar ôl ennill medal ym mhencampwriaeth Ewrop, ond uchafbwynt ei gyrfa oedd torri record y byd yn y ras dros bedwar can medr. Gadawodd hi'r byd athletau yn fuan ar ôl hynny, a mynd yn ôl i'w dre enedigol. Roedd hi'n bum deg saith oed ac wedi bod yn sâl am gyfnod hir.

5. Cafodd estyniad newydd i ganolfan hamdden Aberwylan ei agor y bore 'ma gan yr Aelod Cynulliad Elin Evans. Mae hyn wedi costio hanner miliwn o bunnoedd, arian a gafodd ei roi gan ŵr busnes lleol, Tom Jenkins. Dywedodd Elin Evans y bydd yr estyniad yn werthfawr iawn i bobl ifanc yr ardal, gan ddiolch yn fawr i Mr Jenkins am ei gyfraniad.

6. Chwaraeon nesa ac i'r byd rygbi. Torrodd Stephen James ei fraich yn y gêm rhwng Llanelli a Chaerdydd neithiwr, felly fydd e ddim ar gael i chwarae dros ei wlad yn y gêm fawr yn erbyn De Affrica ddydd Sadwrn nesa. Mae e'n gobeithio bydd e'n gallu chwarae eto erbyn yr haf. Dyma'r ail dro i Stephen gael ei anafu yn ystod y blynyddoedd diwetha.

7. A'r tywydd i gloi. Bydd y tywydd oer yn para am ddiwrnod neu ddau eto, ond does dim disgwyl rhew ar y ffyrdd yfory. Ond byddwch yn ofalus os dych chi ar y ffordd i'r gwaith, gan y gallai niwl fod yn broblem yn y bore. Gobeithio y bydd y tywydd yn well erbyn diwedd yr wythnos nesa. A dyna'r bwletin newyddion.

Atebion enghreifftiol

1. Sut bydd cau'r ffatri'n effeithio ar bobl Llanidloes? (2 ateb) [4]
   Bydd pobl / tri deg o bobl yn colli eu swyddi a *[2]*
   bydd siopau'n cau hefyd. *[2]*

2. Pam mae'r flwyddyn yma wedi bod yn ddrwg i bobl Fflorida? [4]
   Dyma'r pedwerydd corwynt / bedwaredd storm iddyn nhw ei gweld. /
   Maen nhw wedi cael mwy nag arfer o gorwyntoedd eleni.

3. Pam dyw'r darllenwr ddim yn gallu dweud llawer am y ddamwain yn y bwletin? [4]
Mae hi newydd ddigwydd.

4. Beth yw'r rheswm mwya y bydd pobl yn cofio Della Johnson? [4]
Am dorri record byd (yn y ras pedwar can medr) - does dim rhaid cynnwys yr ail gymal.

5. Pam mae Tom Jenkins yn y newyddion? [4]
Fe roddodd yr arian i adeiladu'r estyniad newydd i'r ganolfan hamdden.
Fo wnaeth roi'r pres i'r estyniad newydd yn y ganolfan hamdden.

6. Pam mae anaf Stephen James yn broblem i dîm Cymru yn y dyfodol agos? [4]
Fydd e ddim ar gael i chwarae iddyn nhw yn y gêm yn erbyn De Affrica dydd Sadwrn nesa.

7. Pam dylai gyrwyr boeni am y tywydd? [4]
Mae'n bosib y bydd hi'n niwlog.

Darllen a Llenwi Bylchau [60]

Mae 3 rhan i'r prawf hwn. Caniateir 60 munud i gwblhau'r prawf.

i. Erthygl [20]
ii. Negeseuon [20]
iii. Llenwi Bylchau [20]

Nod y prawf hwn yw meithrin sgiliau darllen yr ymgeiswyr a'u dealltwriaeth o strwythurau'r Gymraeg. Nid asesir cywirdeb orgraffyddol a mynegiannol yr atebion, ond rhaid i'r ymgeisydd ddangos dealltwriaeth o'r darnau - hynny yw, ni chosbir ymgeiswyr am wallau iaith yn eu hatebion. Bydd cynllun marcio penodol i bob papur gwahanol yn nodi atebion cywir a rhannol gywir i bob cwestiwn.

i. **Erthygl**

Nod y rhan hon yw asesu gallu'r ymgeiswyr i adnabod pwyntiau arwyddocaol yn yr erthygl. Rhaid rhoi atebion cryno gan gynnwys y ffeithiau perthnasol i gyd.

ii. **Negeseuon**

Nod y rhan hon yw asesu gallu'r ymgeiswyr i adnabod bwriad yr awdur, a chael hyd i wybodaeth berthnasol. Cwestiynau aml-ddewis yw'r rhain, a rhaid i'r ymgeiswyr ddewis yr ateb mwya priodol allan o 5 posibl.

iii. **Llenwi bylchau**

Nod y rhan hon yw asesu gallu'r ymgeiswyr i adnabod strwythurau'r Gymraeg drwy lenwi bylchau mewn testun yn gywir. Mae 1 marc ar gyfer pob bwlch. Rhoddir canllaw isod o'r math o fylchau a geir ar lefel yr arholiad Canolradd:

1. Troi berfenw'n ferf gyflawn, e.e. (cyrraedd) = cyrhaeddodd
2. Defnyddio'r arddodiad cywir ar ôl berf neu ferfenw, e.e. dwedais i _____ hi am beidio….. = wrthi
3. Defnyddio ffurf briodol y ferf 'bod', e.e. Tasen nhw yma, _____ (nhw) ddim yn gwneud hynny. = fasen
4. Gorffen priod-ddulliau cyffredin, e.e. roedd John wrth ei _____ = fodd
5. Defnyddio'r ateb caeedig cywir, e.e. Yn Llanelli mae John? _____ (✓) = le/la
6. Defnyddio'r trefnolion, e.e. dyma'r tro _____ (× 1) = cyntaf
7. Pob treiglad, e.e. Mae ei _____ (tŷ) hi ger yr orsaf. = thŷ; Roedd e'n costio dwy _____ (£) = bunt.
8. Defnyddio is-gymal enwol, e.e. Dw i'n meddwl ei _____ hi'n iawn. = bod
9. Defnyddio ffurfiau cymharol ac eithaf yr ansoddair, yn cynnwys rhai afreolaidd, e.e. mae'r prisiau'n llawer _____ (drud) nag yng Nghaerdydd = drutach a rhannau o'r gystrawen, e.e. yn ddrutach _____ phrisiau Caerdydd = na
10. Defnyddio gair sy'n dangos dealltwriaeth o'r cyd-destun.
11. Lluosi enw, e.e. roedd llawer o _____ (awr) wedi mynd = oriau
12. Defnyddio rhannau allweddol o strwythur y frawddeg, e.e. Dyw/dydy'r plant _____ yn mynd i'r parti heno! = ddim

Lle bo dwy elfen, e.e. llusoi a threiglo'r gair, rhaid cael y ddwy'n gywir i gael y marc.

Papur Enghreifftiol

Llwybr Credydau Lefel Canolradd
Cymraeg yn Ail Iaith i Oedolion

Darllen a Llenwi Bylchau

Hyd y prawf: 60 munud

Mae 3 rhan i'r prawf yma.

Gallwch chi ennill hyd at 60 o farciau yn y prawf hwn.

Enw llawn yr ymgeisydd: _____

Rhif Arholiad yr ymgeisydd: _____

Canolfan Arholi: _____

Peidiwch ag agor y llyfr hwn cyn i'r gweinyddwr roi caniatâd.
Ni roddir tystysgrif i ymgeisydd a geir yn ymddwyn yn annheg yn ystod yr arholiad.

1. **Erthygl**

Darllenwch yr erthygl yma ac ateb y cwestiynau sy'n dilyn.

Symud i Awstralia

Yn 2006 penderfynodd Delyth Davies, a'i gŵr Rob, symud i Gymru i fynd i fyw yn Awstralia. Dyma erthygl gan Delyth yn edrych yn ôl ar dair blynedd o fyw mewn gwlad newydd.

Roedd hi'n benderfyniad anodd. Faswn i ddim yn dweud wrth neb arall am wneud beth wnaethon ni. Do'n i ddim wedi meddwl llawer cyn mynd, felly do'n i ddim yn gwybod beth i'w ddisgwyl. Ro'n i'n dau'n gweithio llawn amser cyn mynd - finnau'n athrawes a Rob yn dysgu plant sut i chwarae rygbi - ond doedd dim swyddi gyda ni yma. Trwy lwc, cafodd Rob swydd yn syth yn hyfforddi tîm rygbi ym Melbourne. Roedd rhaid i fi fynd i weithio mewn gwesty.

Dyn ni'n dod o ardal Y Bala, y ddau ohonon ni, ac yn gyfarwydd â glaw. Basai'n braf cael tipyn o'r glaw yma, rhaid i mi ddweud! Er ein bod ni'n byw ar lan y môr, mae Awstralia'n wlad sychach o lawer. Ond mae Rob yn gallu gweithio gyda'r chwaraewyr rygbi drwy'r flwyddyn bron. Gwaith yw hynny, ond dyn ni'n trio gwneud pethau gwahanol ar y penwythnosau. Faswn i byth wedi meddwl y baswn i'n mwynhau chwaraeon dŵr cyn dod yma, ond dw i wrth fy modd yn nofio a chanwio. Dim ond gwaith ysgol oedd ar fy meddwl i gartre.

Ro'n ni'n dau'n arfer hoffi coginio, ond rhaid dweud does dim angen i ni wneud llawer yma. Mae'r tai bwyta'n gyfleus, felly dyn ni'n bwyta allan bron bob nos. Do'n ni byth yn gwneud hynny gartre. Hefyd, mae potel o win yn costio pum doler yma, sy tua dwy bunt... mae bron popeth yn rhatach yma. Dyn ni'n cael ein gwahodd i swper yn aml iawn gan bobl wahanol. Maen nhw'n groesawgar iawn yma, fel y Cymry, ond mae pobl yma'n llawer mwy parod i ddweud eu barn... Dyn ni'n teimlo'n dawel iawn yn eu cwmni nhw.

Dw i ddim yn gwybod a fyddwn ni'n aros yma am byth, ond am y tro, dyn ni'n hapus iawn. Dyn ni'n cysylltu â'r teulu gartre drwy'r cyfrifiadur bron bob nos, felly dyn ni ddim yn teimlo'n rhy bell o gartre.

Erthygl - Cwestiynau

Disgrifiwch y **gwahaniaethau** rhwng bywyd Delyth yng Nghymru, a'i bywyd yn Awstralia, gan gyfeirio at yr isod. Defnyddiwch eich geiriau eich hunan. Mae'r enghraifft gynta wedi ei rhoi i chi.

Enghraifft

Gwaith: Roedd hi'n gweithio fel athrawes yng Nghymru, ond nawr mae hi'n gweithio mewn gwesty yn Awstralia.

1. Y tywydd [4]

2. Amser hamdden [4]

3. Bwyd [4]

4. Prisiau [4]

5. Y bobl [4]

ii. **Negeseuon**

Darllenwch y negeseuon e-bost, a dewiswch yr ateb mwya priodol (*most appropriate*) o'r dewisiadau sy'n dilyn.

Oddi wrth: Cara Dafis At: Y Staff
Pwnc: Dyfodol y Swyddfa

Annwyl Bawb,

Hoffwn i ddweud rhywbeth am y stori oedd yn y papur dros y penwythnos - fod 'Sunshine Farm Foods' yn mynd i gau'r swyddfa yn Llanaber. Gallwch chi gysgu'n dawel, achos does dim gwir yn y stori o gwbl. Dw i ddim yn gwybod pwy ysgrifennodd y peth.

Mae'r cwmni'n gwneud yn dda iawn, a dweud y gwir. Dyn ni'n gwerthu i siopau yn Abertawe, Aberystwyth ac am y tro cynta yng Nghaerdydd.

Dyn ni'n gobeithio bydd person newydd yn dechrau gyda ni y mis nesa. Mae angen gyrrwr arall i fynd i Dde Cymru, a bydd y swydd cael ei hysbysebu yn y Western Telegraph cyn hir.

Darllenwch y bwletin staff a gallwch chi ddarllen beth sy'n digwydd i'r cwmni, a beth fydd yn digwydd yn y blynyddoedd nesa. Os dych chi eisiau sgwrs am y peth, mae croeso i chi ddod i fy ngweld i.

Diolch a hwyl,
Cara

Oddi wrth: Ifan Tomos At: Cara Dafis
Pwnc: Dyfodol y Swyddfa (eto)

Annwyl Cara,

Diolch am y neges. Ro'n i wedi bod yn poeni, ar ôl i mi ddarllen y stori yn y papur Llais Llanaber. Nid dyna pam dw i'n ysgrifennu a dweud y gwir. Mae diddordeb gen i yn y swydd newydd. Dw i'n gweithio yn y swyddfa ers dwy flynedd, ac mi faswn i'n hoffi cael newid a gyrru bwyd 'Sunshine Farm Foods' o gwmpas Cymru.

Wnewch chi anfon y manylion ata i, os gwelwch chi'n dda? Dw i'n gwybod bydd rhaid gweithio yn gynnar yn y bore neu'n hwyr yn y nos, ond mae fy mhlant wedi mynd i'r coleg erbyn hyn, ac mi fasai hynny'n haws.

Diolch yn fawr,
Ifan Tomos

Negeseuon - Cwestiynau

Dewiswch yr ateb mwya priodol (*most appropriate*) o'r dewisiadau sy'n dilyn. Mae 4 marc am bob ateb. Rhowch lythyren eich dewis chi yn y blwch.

1. Prif neges Cara Dafis i'r staff yw/ydy… ☐

   a. … bod Sunshine Farm Foods yn agor siop newydd yng Nghaerdydd.
   b. … bod y swyddfa'n cau.
   c. … bod rhaid darllen y papur lleol.
   ch. … dylen nhw ddod i gael sgwrs gyda hi.
   d. … peidio â phoeni.

2. Mae cwmni 'Sunshine Farm Foods' … ☐

   a. yn mynd yn fwy
   b. yn meddwl cau swyddfa Llanaber
   c. wedi hysbysebu yn y papur
   ch. yn diodde' problemau economaidd
   d. wedi agor swyddfa yn Abertawe, Aberystwyth a Chaerdydd

3. I gael gwybod am ddyfodol y swydda, dylai'r staff ddarllen… ☐

   a. y papur lleol
   b. neges e-bost Cara
   c. Llais Llanaber
   ch. y Western Telegraph
   d. y bwletin staff

4. Prif neges Ifan Tomos i Cara yw/ydy… ☐

   a. diolch iddi
   b. ei fod e wedi darllen y papur lleol
   c. ei fod e eisiau symud swydd
   ch. ei fod e eisiau gweld Cara
   d. ei fod e eisiau gadael y cwmni

5. Bydd rhaid i'r gyrrwr newydd… ☐

   a. ddarllen hysbyseb yn y Western Telegraph
   b. weithio yn y swyddfa
   c. ysgrifennu at Cara Dafis
   ch. weithio oriau anodd
   d. fynd i'r coleg

iii. **Llenwi bylchau**

Llenwch y bylchau yn y ddeialog yma.

John: _____ (gweld) ti'r newyddion neithiwr?

Mair: _____ (x) Pam - beth ddigwyddodd?

John: Buodd lladrad yn siop y pentre dros nos.

Mair: Wir! _____ (clywed) i ddim byd ar y radio chwaith. Beth gafodd ei

_____ (dwyn)?

John: _____ neb yn siŵr yn union. Arian, diod a sigaréts mae'n debyg.

Mair: Oedd Mrs Jones yn y siop ar y pryd?

John: Nac oedd - mae hi'n aros gyda'i _____ (teulu) am wythnos.

Mair: Diolch am hynny. Pryd _____ (dod) yr heddlu felly?

John: _____ (cyrraedd) nhw am bump o'r gloch, medden nhw.

Roedd y larwm yn canu am nifer o _____ (awr) cyn hynny.

Mair: Dyma'r _____ (x2) ladrad i ddigwydd yn y pentre o fewn mis. Mae pethau'n

mynd o ddrwg i _____ .

John: Mae'r heddlu'n dweud eu _____ nhw'n gwybod pwy sy'n gyfrifol.

Mair: Sut hynny?

John: Mewn ffordd - roedd Mrs Jones wedi cael camera cudd yno ar ôl _____ (i) hi golli arian yn y lladrad diwethaf.

Mair: Druan _____ hi, a hithau'n byw ar ei phen ei _____ y tu ôl i'r siop.

John: Siaradais i _____ Tomos y plismon a dwedodd e / o _____ (wrth) i y byddan nhw'n dangos y fideo ar y teledu nos yfory.

Mair: Oes syniad gyda fe/gynno fo pwy wnaeth?

John: _____ (✓) - gwraig ganol oed, sy'n byw yn y pentref

- meddai hwnnw, ond dw i ddim yn ei _____ (credu) fe.

Mair: Pam _____ ti'n dweud hynny?

John: Achos bod y disgrifiad roddodd e yn swnio'n union fel ti!

Atebion Enghreifftiol

i. **Erthygl**

1. **Y tywydd** [4]
Mae'r tywydd yn Awstralia'n sychach nag yng Nghymru.
Mae'r tywydd yng Nghymru'n wlypach nag yn Awstralia.
Mae'r tywydd yn Awstralia'n sych [2]

2. **Amser hamdden** [4]
Nawr, mae Delyth yn mwynhau chwaraeon dŵr, ond yng Nghymru roedd hi'n gweithio drwy'r amser.

3. **Bwyd** [4]
Yn Awstralia, maen nhw'n bwyta allan, lle ro'n nhw'n coginio gartre llawer yng Nghymru.

4. **Prisiau** [4]
Mae prisiau bron popeth yn rhatach yn Awstralia nag yng Nghymru.

5. **Y bobl** [4]
Mae pobl Awstralia'n fwy parod i ddweud eu barn / yn fwy swnllyd na phobl Cymru.

ii. **Negeseuon**

1. d
2. a
3. d
4. c
5. ch

iii. **Llenwi Bylchau**

1 marc am bob bwlch cywir. Rhoddir yr amrywiadau posibl.

John: **Welaist / Welest** ti'r newyddion neithiwr?
Mair: **Naddo**. Pam - beth ddigwyddodd?
John: Buodd lladrad yn siop y pentre dros nos.
Mair: Wir! **chylwais / chlywes** i ddim byd ar y radio chwaith. Beth gafodd ei **ddwyn** ?
John: **Does** neb yn siŵr yn union. Arian, diod a sigarét s mae'n debyg.
Mair: Oedd Mrs Jones yn y siop ar y pryd?
John: Nac oedd - mae hi'n aros gyda'i **theulu** am wythnos.
Mair: Diolch am hynny. Pryd **daeth / ddaeth / dôth / ddôth** yr heddlu felly?
John: **Cyrhaeddon** nhw am bump o'r gloch, medden nhw. Roedd y larwm yn canu am nifer o **oriau** cyn hynny.
Mair: Dyma'r **ail** ladrad i ddigwydd yn y pentre o fewn mis. Mae pethau'n mynd o ddrwg i **waeth**.
John: Mae'r heddlu'n dweud eu **bod** nhw'n gwybod pwy sy'n gyfrifol.
Mair: Sut hynny?
John: Roedd Mrs Jones wedi cael camera cudd yno ar ôl **iddi** hi golli arian yn y lladrad diwethaf.
Mair: Druan **â / ohoni** hi, a hithau'n byw ar ei phen ei **hun / hunan** y tu ôl i'r siop.
John: Siaradais i **â / efo** Tomos y plismon a dwedodd e **wrtho / wrtha** i y byddan nhw'n dangos y fideo ar y teledu nos yfory.

Mair: Oes syniad gyda fe / *gynno fo* pwy wnaeth?
John: **Oes** - gwraig ganol oed, sy'n byw yn y pentref - meddai hwnnw, ond dw i ddim yn ei **gredu** fe.
Mair: Pam **rwyt / wyt** ti'n dweud hynny?
John: Achos bod y disgrifiad roddodd e yn swnio'n union fel ti!

Ysgrifennu [60]

Mae 2 ran i'r prawf hwn. Caniateir 75 munud i gwblhau'r prawf.

i. Llythyr [28]
ii. Llenwi ffurflen [32]

Nod y prawf hwn yw annog ymgeiswyr i ddefnyddio Cymraeg ysgrifenedig mewn amrywiaeth o gyd-destunau ac at bwrpasau gwahanol. Rhaid cyflawni dwy dasg.

Llythyr

Rhaid i'r ymgeiswyr ysgrifennu llythyr i bwrpas penodol. Mae dewis o destunau, sy'n amlinellu pwrpas a chyd-destun y llythyr, e.e. ymateb i lythyr arall, diolch, cwyno, trosglwyddo gwybodaeth, gwneud trefniadau, perswadio rhywun i wneud rhywbeth. Rhaid ysgrifennu rhwng 100 a 120 o eiriau. Asesir:

- Cywirdeb
- Ystod Amserau a Chystrawennau
- Geirfa
- Priodoldeb

Rhoddir marc allan o 10 am bob un o'r meini prawf uchod a'i luosi a 0.7 i roi marc allan o 28.

Cywirdeb
[8-10] yn ysgrifennu'n gywir, (tri neu bedwar o fân wallau yn unig).
[6-7] yn ysgrifennu'n gywir ar y cyfan (pump i ddeg o fân wallau a rhai gwallau cystrawen) ond yn llwyddo i gyfleu'r neges heb fod y gwallau'n ymyrryd â dealltwriaeth.
[4-5] yn ysgrifennu'n foddhaol weithiau'n unig (camgymeriadau'n gwneud dealltwriaeth yn anodd ar brydiau).
[1-3] dim ond un neu ddwy o frawddegau cywir, (llawer o fân wallau a gwallau cystrawen).

Ystod
[8-10] yn defnyddio amrywiaeth o amserau a chystrawennau, e.e. y gorffennol, yr amodol, brawddegau pwysleisiol, cystrawen 'i', e.e. ar ôl i ni... yn gwbl addas i'r cyd-destun.
[6-7] yn defnyddio rhai amserau a chystrawennau amrywiol, (gydag un neu ddwy enghraifft o gymysgu) a'r rhain yn briodol ar y cyfan.
[4-5] yn defnyddio un neu ddau o batrymau gwahanol, e.e. yn cadw at yr amser presennol.
[1-3] yn defnyddio ystod gyfyng o amserau a chystrawennau, yn cymysgu rhwng amserau weithiau, e.e. rhwng y gorffennol a 'wedi'.

Geirfa
[8-10] yn defnyddio amrywiaeth helaeth o eirfa mewn ffordd sy'n gwbl addas i'r cyd-destun.
[6-7] yn defnyddio geirfa berthnasol ar y cyfan, er nad oes ystod eang iddi (gydag un neu ddwy enghraifft o gymysgu geiriau).
[4-5] yn defnyddio geirfa'n foddhaol weithiau, er yn drysu rhwng rhai geiriau.
[1-3] yn defnyddio geirfa gyfyng, ac yn cymysgu geirfa.

Priodoldeb
[8-10] y cynnwys yn gwbl briodol i gyd-destun a phwrpas y dasg.
[6-7] y cynnwys yn briodol ar y cyfan, er nad yw'n ateb gofynion y dasg yn union.
[4-5] y cynnwys yn foddhaol, ond heb ymateb i ofynion y dasg.
[1-3] wedi camddeall gofynion y dasg i raddau helaeth, a'r cynnwys yn amhriodol.

Llenwi ffurflen

Rhaid i'r ymgeiswyr lenwi ffurflen yn gofyn am fanylion estynedig. Defnyddir ffurflenni dilys wedi eu haddasu neu ffurflenni wedi eu llunio'n arbennig ar gyfer y dasg. Bydd adrannau'r ffurflen yn gofyn am fanylion gwahanol, a mathau gwahanol o iaith. Fel arfer, bydd gofyn iddyn nhw ysgrifennu tua 150 o eiriau (nodir canllaw geiriau i bob rhan).

Bydd rhai adrannau yn y ffurflen yn gofyn am wybodaeth gyfyng neu ateb cryno, sydd naill ai'n gywir neu beidio. Bydd adrannau mwy helaeth yn cael eu hasesu ar sail:

- Cywirdeb
- Ystod Amserau a Chystrawennau
- Geirfa
- Priodoldeb

Defnyddir yr un disgrifyddion ag ar gyfer Tasg 1 (y llythyr), a lle bo'r cyfanswm sydd ar gael yn wahanol i 10, bydd y marc yn cael ei addasu, e.e. os oes hyd at 8 marc ar gael am adran, bydd y cyfanswm yn cael ei luosi â 0.8.

Papur Enghreifftiol

Llwybr Credydau Lefel Canolradd
Cymraeg yn Ail Iaith i Oedolion

Ysgrifennu

Hyd y prawf: 75 munud

Mae 2 ran i'r prawf yma.

Gallwch chi ennill hyd at 60 o farciau yn y prawf hwn.

Enw llawn yr ymgeisydd: _____

Rhif Arholiad yr ymgeisydd: _____

Canolfan Arholi: _____

Peidiwch ag agor y llyfr hwn cyn i'r gweinyddwr roi caniatâd.
Ni roddir tystysgrif i ymgeisydd a geir yn ymddwyn yn annheg yn ystod yr arholiad.

1. **Ysgrifennu Llythyr** [28]

Ysgrifennwch lythyr ar un o'r testunau yma.
Dylech chi ddefnyddio rhwng 100 a 120 o eiriau.

Naill ai: (either)

i. *Ysgrifennwch ateb i'r llythyr yma:*

> Gwefan Croeso i Gymru
> 9 Stryd yr Eglwys
> Llanaber
>
> Annwyl Gyfaill,
>
> Mae ein cwmni ni wrthi'n paratoi gwefan (*website*) i gael rhagor o dwristiaid i ddod i Gymru. Basen ni'n ddiolchgar iawn tasech chi'n ysgrifennu rhywbeth am eich ardal chi. Beth sy'n denu twristiaid yno? Beth dylen nhw fynd i'w weld? Pa un ydy'ch hoff le chi yn yr ardal?
>
> Does dim rhaid ysgrifennu llawer, dim ond tua chant o eiriau a rhaid i ni ei dderbyn cyn diwedd y mis nesaf. Dw i'n edrych ymlaen at glywed oddi wrthoch chi.
>
> Pob hwyl,
>
> Samantha Morgan

neu:

ii. Buoch chi'n helpu trefnu cyngerdd yn ddiweddar. Ysgrifennwch at un o'r bobl oedd yn cymryd rhan yn y cyngerdd i ddiolch iddo / iddi.

neu:

iii. Mae siop newydd agor yn agos i'ch cartref chi a does dim un arwydd Cymraeg i'w weld yno. Ysgrifennwch at y rheolwr i gwyno.

neu:

iv. Mae ffrind i chi'n dathlu achlysur (*occasion*) arbennig cyn bo hir, ond dych chi ddim yn gallu bod yn y parti. Ysgrifennwch at eich ffrind yn esbonio pam.

Ysgrifennwch y llythyr yma:

6 Mehefin 2009

2. **Llenwi Ffurflen** [32]

Mae cwmni teledu **Agendum** yn paratoi cyfres newydd o **Halen y Ddaear**, cyfres am bobl ddiddorol dros Gymru gyfan. Dych chi'n mynd i enwebu (*nominate*) person dych chi'n ei nabod i fod ar y gyfres.

***

Halen y Ddaear

Eich enw chi: _____ [1]

Eich rhif ffôn neu e-bost chi: _____ [1]

Enw a chyfeiriad y person yr hoffech chi ei enwebu: _____ [1]

_____

Sut dych chi'n nabod y person yma? (tua 30 o eiriau) [8]

_____

_____

_____

_____

_____

_____

Beth mae'r person yma wedi ei wneud - pethau fasai o ddiddordeb i bobl sy'n gwylio'r rhaglen *Halen y Ddaear*? (tua 40 o eiriau) [10]

_____

_____

_____

_____

_____

_____

_____

_____

_____

_____

Pa fath o berson ydy e/hi? (tua 40 o eiriau) [10]

Fasai'r person yma'n hapus i fod ar raglen fel hon, yn eich barn chi? _____ [1]

Diolch yn fawr i chi am eich cymorth!